Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

## TAFLEN ADRODDIAD / PENDERFYNIAD CRYNO

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI 030**

**Amseru: Brys**
**(Nodwch y dyddiad gofynnol a pham, lle bo'n bosibl)**

**Teitl: Trosglwyddo Adnoddau'r Adran Ystadau**

**Categori Penderfyniad / Effaith ar Faes Busnes:** Adran Ystadau

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae darpariaeth gyfredol cynnal a chadw Ystadau'n cael ei reoli o dan y Prif Gwnstabl; trefniant hanesyddol yw hyn sydd ddim yn alinio â'r CHTh fel perchennog eithaf yr Ystâd.

Er mwyn atal oedi a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a sianeli cyfathrebu cymhleth, dylai'r llinellau adrodd a'r strwythur ategu anghenion arfaethedig yr adran yn y dyfodol.

Gyda chwmpas y prosiectau gwella ystadau'n effeithio ar bron bob gorsaf dros y tair blynedd nesaf, mae'n hollbwysig bod rheolaeth gyffredinol ac aliniad adnoddau'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan SCHTh. Bydd hyn yn creu gweithrediad wedi'i alinio gan leihau gwrthdaro, gwella cyfathrebu ac yn gwella cydymffurfiaeth/cyfeiriad/effeithlonrwydd gweithredol.

**Argymhelliad:**
Dylai tîm ystadau'r Heddlu drosglwyddo'n uniongyrchol i SCHTh, ac adrodd i'r Cyfarwyddwr Ystadau. Bydd hyn yn darparu llinell reoli unedig gan leihau gwrthdaro a gwella eglurder o ran datrysiad gweithredol materion strategol dydd i ddydd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Rwy'n cadarnhau fy mod i wedi ystyried pa un ai a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn ac yn cymryd y penderfyniad a gynigir mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 1. 3. 2017